Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio, Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid, ymateb Gofal Cymdeithasol Cymru

Gerry Evans, Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Gwybodaeth
Gofal Cymdeithasol Cymru
ceri.williams@socialcare.wales
029 2078 0543

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydlwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), 2016 i ddiogelu, hyrwyddo a chynnal diogelwch a lles y cyhoedd yng Nghymru.

Ein nod yw:

- Rhoi hyder i'r cyhoedd am y gweithlu gofal cymdeithasol
- Arwain a chefnogi gwelliannau mewn gofal cymdeithasol
- Datblygu'r gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal cymdeithasol

Pwyntiau allweddol

- **Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn wynebu pwysau sylweddol yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio (paragraff 1)**
- **Mae pwysau ariannol wedi arwain at gyflogau isel yn y sector gofal cymdeithasol sydd wedi cael effaith sylweddol ar recriwtio (paragraffau 2-6)**

I archwilio patrymau yn y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer pobl o oed pensiwn a chostau cyflenwi gofal preswyl a dibreswyl, gan gymryd i ystyriaeth rôl gofalwyr anffurfiol sy'n darparu gwasanaethau di-dâl i'r rhai sydd angen gofal

1. Y llynedd, fe wnaethom gomisiynu'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol ar gyfer Rhagoriaeth (SCIE) i baratoi arolwg llenyddiaeth am ofal a chymorth yn y cartref. O ran y galw, canfu'r adroddiad fod gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru yn wynebu sialensiau sylweddol:

> "Mae'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol a llafur gofal yn tyfu yng nghyd-destun newidiadau demograffig sylweddol ac amlder ac amlygrwydd cyflyrau cymhleth, hirdymor. Mae'r boblogaeth sy'n heneiddio'n golygu bod dros chwarter y boblogaeth yng Nghymru yn 50 oed neu'n hŷn. Disgwylir i bobl dros 65 oed gynyddu o tua 600,000 yn 2013 i 900,000 yn 2037, ac mae'r nifer o bobl dros 85 oed yn tyfu ar raddfa hyd yn oed yn gyflymach (Age Cymru, 2015). Mae gan Gymru hefyd gyfran uwch o bobl 85 oed neu'n hŷn o'i gymharu â gweddill y DU (StatsCymru, 2012). Mae rhagolygon twf y boblogaeth a phroffil demograffig yn dangos bod yr ochr gyflenwi gofal cymdeithasol yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r galw. Mae'r data'n dangos y bydd angen dros hanner miliwn o weithwyr gofal/gofalwyr cartref newydd ar draws y DU erbyn 2022 (Howat et al., 2015). [1]"

I archwilio'r pwysau ariannol ar y system gofal cymdeithasol, fel cynnydd mewn cyflogau, cofrestru pensiwn awtomatig ac anawsterau recriwtio a chadw staff, gan

[1] Datblygu cynllun strategol ar gyfer gofal a chymorth yn y cartref, arolwg llenyddiaeth, Sefydliad Gofal Cymdeithasol ar gyfer Rhagoriaeth (SCIE) ar gyfer Cyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru bellach), 2016

gynnwys yr effeithiau ariannol cysylltiedig sy'n deillio o'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

2. Mae pwysau ariannol wedi cael effaith uniongyrchol ar gyflogau gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae hynny yn ei dro wedi cael effaith sylweddol ar recriwtio a chadw staff. Mae telerau ac amodau'r gweithlu gofal yn rhwystr recriwtio sylweddol i swyddi sy'n gofyn am lefelau cynyddol o gymhlethdod a sgil a disgwyliadau i gyflawni mwy o dasgau sy'n ymwneud ag iechyd. Mae'r sefyllfa hon yn gwaethygu ymhellach yn sgil y gwahaniaeth rhwng lefelau cyflogau'r GIG a gofal cymdeithasol.

3. Darparodd arolwg llenyddiaeth y SCIE ar ofal yn y cartref dystiolaeth bellach o effaith cyflogau isel ar recriwtio:

> Yn gyffredinol, ystyrir bod swyddi rheng flaen yn y sector gofal yn swyddi o statws isel, swyddi â sgiliau isel. Adlewyrchir hyn yn y cyfraddau tâl, gyda'r rhan fwyaf o weithwyr yn cael eu talu ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'n agos ato. Mae cyflogau isel yn effeithio'n uniongyrchol ar y gallu i recriwtio a chadw staff, yn enwedig yng nghyd-destun sectorau eraill, gan gynnwys manwerthu, sy'n gallu cynnig cyflogau uwch. Mae data diweddar y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Kirton, 2015) yn dangos bod diweithdra yng Nghymru, sef 6.4%, bellach yn debyg i'r lefelau a welwyd cyn y dirwasgiad a bod cyflogau wedi perfformio'n gymharol gryf yn y sector manwerthu yn hytrach na'r sectorau cyhoeddus a'r sectorau cysylltiedig sy'n fwy cyfyngedig. Mae'n risg y gallai cyfraddau tâl gofal cymdeithasol ddisgyn ymhellach y tu ôl i sectorau eraill sy'n cystadlu.[2]"

4. Mae cyfyngiadau'r hyn y gellir ei ddisgwyl gan weithwyr gofal am yr hyn y maent yn cael eu talu wedi'i gyrraedd neu wedi mynd ymhellach. Mae hyn yn cael ei weld gyda'r anawsterau wrth recriwtio a chadw gweithwyr gofal a rheolwyr gofal pan na fydd cyfleoedd eraill am waith yn dod â'r un pwysau ac yn cynnig mwy o fudd ariannol.

5. Mae'r gwahaniaeth rhwng cyflogau gweithwyr gofal iechyd y GIG a gweithwyr gofal cymdeithasol yn debygol o fod yn rhwystr mawr i brosesau cydweithio rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd yn ogystal â'r awydd i ddarparu'n ddi-dor.

6. Rydym wedi comisiynu ymchwil[3] sy'n dangos bod y gweithlu gofal yn y cartref wedi'u hysgogi'n bositif gan eu rôl wrth ddarparu gofal a chymorth, serch hynny, mae hefyd yn awgrymu y gallai telerau ac amodau fod yn rhwystr i bobl a allai fod yn dymuno gweithio yn y sector.

7. Nid yw union effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn hysbys ac nid oes gennym ddata cywir o gyfran gweithwyr yr UE yn

---

[2] Datblygu cynllun strategol ar gyfer gofal a chymorth yn y cartref: arolwg llenyddiaeth, SCIE

[3] 'Ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal yn y cartref a'r graddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd y gofal', Cyngor Gofal Cymru / Llywodraeth Cymru 2016

y gweithlu gofal cymdeithasol. Yn Lloegr mae'n amrywio o 4 y cant yn y Gogledd Ddwyrain i 12 y cant yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr i 39 y cant yn Llundain[4]

I ystyried effaith ariannol polisïau cyfredol Llywodraeth Cymru - gan gynnwys deddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol diweddar a diwygiadau i gyllid gofal cymdeithasol - ar awdurdodau lleol, darparwyr gofal a defnyddwyr gwasanaethau.

8. Mae yna dystiolaeth anecdotaidd eang bod pobl yn ddryslyd ynglŷn â thalu am ofal cymdeithasol pan fo gofal iechyd am ddim ar adeg ei ddarparu. Mae hyn yn arbennig o amlwg pan mae gan bobl anghenion iechyd a gofal cymhleth iawn a/neu hirdymor, a allai hefyd fodloni trothwy gofal iechyd parhaus y GIG.

9. Rydym hefyd wedi derbyn tystiolaeth gan y sector bod cefnogaeth ataliol gan wasanaethau cymunedol a'r trydydd sector yn lleihau, sy'n deillio o gynghorau a chyrff eraill yn ailgyfeirio adnoddau i swyddogaethau statudol a gwasanaethau critigol, oherwydd sialensiau'r gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf.

I ystyried anghenion gofal cymdeithasol y dyfodol a chostau cysylltiedig, gan gynnwys y cynnydd a ragwelir yng nghyfran poblogaeth Cymru o oed pensiwn

10. Mae demograffeg ein cymdeithas yn newid, gyda mwy o angen am gefnogaeth gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn gymdeithas sy'n heneiddio. Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd yn cynyddu 292,000 (44 y cant) rhwng 2014 a 2039[5]. Rydym yn gweld llawer mwy o bobl yn eu blynyddoedd canol gydag anableddau sylweddol sy'n disgwyl byw bywydau cyflawn. Rydym yn gweld llawer mwy o blant ag anableddau neu anfanteision sylweddol sydd â disgwyliadau uchel o ran y gefnogaeth sy'n eu diogelu a'u helpu i gyflawni eu potensial llawn.

11. Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn wynebu cynnydd gwirioneddol ac anghynaliadwy yn y galw er mwyn diwallu anghenion cymdeithas. Yn ôl y Sefydliad Iechyd, "rhagwelir y bydd y pwysau ar ofal cymdeithasol i oedolion yn codi'n gyflymach na'r GIG, sef 4.1% y flwyddyn ar gyfartaledd. Gyda nawdd yn annhebygol o godi ar yr un raddfa, mae yna risg go iawn y gallai lefel yr angen sydd heb ei ddiwallu ar gyfer gwasanaethau gofal godi yng Nghymru.[6]"

[4] Cyflwr y sector a'r gweithlu gofal cymdeithasol i oedolion yn Lloegr, 2017, Sgiliau ar gyfer Gofal
[5] Rhagolygon poblogaeth cenedlaethol, Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru, 2015
[6] Y llwybr at gynaliadwyedd: Rhagolygon cyllido i'r GIG yng Nghymru tan 2019/20 a 2030/31, Y Sefydliad Iechyd, 2016